**Cynllun Gweithredu Heatherwood Court yn dilyn arolygiad AGIC ar 8, 9 a 10 Gorffennaf 2014.**

| **Mater sy'n Peri Pryder** | **Cam Gweithredu** | **Person(au) sy'n Gyfrifol am ei gyflawni** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cynllun gofal | Mae'r holl bryderon a godwyd yn y llythyr Rheoli wedi cael sylw | | | |
| | Arweinwyr uned i gadarnhau dyddiadau adolygu a llunio amserlen archwilio ar gyfer o leiaf chwarter cyfanswm y ffeiliau cleifion bob wythnos. | Rheolwyr Uned | Ar unwaith | Yn mynd rhagddo'n barhaus |
| | Arweinydd Clinigol a'r Rheolwr Cofrestredig hefyd i bennu amserlen ar gyfer adolygu ffeiliau gofal | Rheolwr Cofrestredig a'r Arweinydd Clinigol | Ar unwaith | Wedi'i gwblhau |
| | Lefelau arsylwadau a manylion y broses i gael eu cynnwys mewn cynlluniau gofal | Nyrs Sylfaenol | Diwedd Awst 2014 | Yn mynd rhagddo'n barhaus |
| | Lle mae asesiad risg yn nodi bod angen datblygu cynllun gofal fel rhan o'r cynllun rheoli, rhaid cyflawni hyn a'i gadw'n gyfredol. | Nyrs Sylfaenol/ Rheolwr Uned | Ar unwaith | Yn mynd rhagddo'n barhaus |
| 2. Rheoli Meddyginiaethau | Yr holl nyrsys i gael hyfforddiant mewn Rheoli Cyffuriau a Reolir | Rheolwyr Uned | Diwedd Medi 2014 | Ar y gweill |

| Mater sy'n Peri Pryder | Cam Gweithredu | Person(au) sy'n Gyfrifol am ei gyflawni | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|---|
| 2. (Parhad) | Rhaid bod uchafswm dos wedi'i gynnwys yn y presgripsiwn ar gyfer yr holl feddyginiaethau 'yn ôl y gofyn' (PRN).<br>Rhaid i'r nyrs â gofal wirio'r stoc ar gyfer yr holl feddyginiaethau newydd a roddwyd ar bresgripsiwn ac archebu o'r fferyllfa pan fo angen.<br><br>Rheolwyr Uned i sicrhau bod yr holl gamau gofynnol a nodir yn archwiliad Ashtons wedi cael eu cymeradwyo gan berson(au) perthnasol. Rheolwr Cofrestredig i gael ei hysbysu pan fo hyn wedi'i gwblhau | Pob presgripsiynydd<br><br>Pob nyrs<br><br>Rheolwyr Uned | Diwedd Awst 2014<br><br>Ar unwaith<br><br>Ar unwaith | Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau ac Yn mynd rhagddo'n barhaus |
| 3. Gweithgareddau | Adolygiad o weithgareddau ar wardiau. | Rheolwyr Uned/ Rheolwr Cofrestredig | Diwedd Awst 2014 | Wedi'i gwblhau ac Yn mynd rhagddo'n barhaus |
| 4. Sesiynau Seicolegol | Cafodd y sefyllfa o ran cyflogi PSR a seicolegydd ei hegluro wrth AGIC. Mae angen cyfleu hyn i'r cleifion trwy'r cyfarfod bore ar y ward yn y dyfodol. Gwybodaeth allweddol fel hon i gael ei bwydo drwodd yn | Grŵp Llywodraethu Lleol a Rheolwyr Uned | Awst 2014 | Wedi'i gwblhau ac Yn mynd rhagddo'n barhaus |

| **Mater sy'n Peri Pryder** | **Cam Gweithredu** | **Person(au) sy'n Gyfrifol am ei gyflawni** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|
| | gynharach a thrwy gyfarfodydd y 4 ward. | | | |
| 5. Cyfleoedd Addysgol | Adolygu'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael mewn cyfleusterau cymunedol.<br><br>Archwilio'r opsiynau ar gyfer datblygu cyfleoedd addysgol ac achrediad yn enwedig ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r gymuned. | ThG/Rheolwr Cofrestredig/ Cyfarwyddwr Addysg | Diwedd Medi 2014 | Ar y gweill |
| 6. Dysgawdwriaeth | Casglu safbwyntiau dienw nyrsys newydd gymhwyso.<br><br>Adolygu'r system dysgawdwriaeth a chymorth i nyrsys newydd gymhwyso. | Rheolwr Cofrestredig/ Unigolyn Cyfrifol | Diwedd Awst 2014<br><br>Diwedd Awst 2014 | Ar y gweill<br><br>Ar y gweill |
| 7. Yr Amgylchedd | Adolygu'r lle byw ar gyfer ward Aberteifi a Chaerffili. | Bwrdd y Cyfarwyddwyr trwy S Bartley | Diwedd Medi 2014 | Ar y gweill |
| 8. Cwynion | Adolygu'r drefn gwynion. Archwilio'r opsiynau ar gyfer prosesau ymdrin â chwynion. Datblygu system ganolog i logio a thracio cwynion. | Rheolwr Cofrestredig/ Unigolyn Cyfrifol | Diwedd Medi 2014 | Ar y gweill |
| 9. Goruchwyliaeth Feddygol | Roedd sesiynau goruchwylio wedi cael eu cofnodi o fewn y System Arfarnu ac Ailddilysu | | | |

| Mater sy'n Peri Pryder | Cam Gweithredu | Person(au) sy'n Gyfrifol am ei gyflawni | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|---|
| | Meddygol (MARS) ar gyfer Cymru; fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth hon ar gael i AGIC. Mae system wedi cael ei datblygu gan y Cyfarwyddwr Meddygol a fydd yn dangos tystiolaeth o arfarniadau meddygon ac a fydd ar gael i AGIC. | Dr S Burton | Awst 2014 | Wedi'i gwblhau ac Yn mynd rhagddo'n barhaus |
| 10. Rheoli Wardiau | Trefniant dros dro oedd hwn oherwydd salwch. Fodd bynnag cafodd hyn ei ddatrys trwy drefniant byrdymor lle'r oedd rhywun yn gweithredu ar lefel uwch yn dilyn eich ymweliad. Mae cyfweliadau'n cael eu cynnal ar gyfer y swydd gyda golwg ar ei llenwi'n barhaol. | Rheolwr Cofrestredig | 19 Medi 2014 | Ar y gweill |
| 11. Y Ddeddf Iechyd Meddwl – Craffu Meddygol | Meddygon i sicrhau bod trefniadau i graffu'n feddygol ar y modd y gweinyddir y Ddeddf Iechyd Meddwl yn ateb y gofynion. | Meddygon | Diwedd Gorffennaf 2014 | Wedi'i gwblhau ac yn mynd rhagddo'n barhaus |
| 12. Mynediad at Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol | Hawl cleifion i gael mynediad at Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol i gael ei hychwanegu a'i chynnwys wrth ddarllen hawliau'n fisol dan A132 | Nyrs Sylfaenol | Ar unwaith | Wedi'i gwblhau ac Yn mynd rhagddo'n barhaus |

| **Mater sy'n Peri Pryder** | **Cam Gweithredu** | **Person(au) sy'n Gyfrifol am ei gyflawni** | **Amserlen** | **Statws** |
|---|---|---|---|---|
| 13. Asesiadau o Alluedd (CC) | Meddygon i sicrhau bod asesiadau o alluedd a chydsyniad yn gyfredol ac yn amserol. | Meddygon | Diwedd Gorffennaf 2014 | Wedi'i gwblhau |
| 14. Rhifau Cyswllt Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol | Yr holl bosteri Eiriolaeth/ Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol i gael eu diweddaru i sicrhau bod y manylion cyswllt yn eglur. | Rheolwyr Uned | Ar unwaith | Wedi'i gwblhau |